

COFNODION BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR A GYNHALIWDYD AR 10 RHAGFYR 2020

RHITH-GYFARFOD

Rhif Age nda	Nodiadau	Camau Gweithr edu
	<p>YN BRESENNOL: Roger Lewis (yn y Gadair); Hywel John (Trysorydd); Carys Howell; Catherine Duigan; Gwyneth Hayward; Hywel Ceri Jones; Madeleine Havard; Michael Prior; Rachel Hughes; Rob Humphreys; Abigail Lawrence; Richard Thomas; David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol; Neil Wicks, Prif Swyddog Gweithredol / Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol; Nia Williams, Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus; Janice Lane, Cyfarwyddwr Profiad Ymwelwyr; Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil; Heledd Fychan, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus ac Elaine Cabuts, Ysgrifennydd yr Amgueddfa.</p> <p>ERAILL YN Y CYFARFOD: Maria Ioannou, Swyddog Datblygu; Catrin Taylor, Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu, Paul Twamley, Cadeirydd y Bwrdd Datblygu; Gwen Williams, Cadeirydd y Cyfeillion; Steffan Roberts, Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Diwylliant a Chwaraeon, Llywodraeth Cymru.</p>	
	<p>DATGANIADAU O FUDDIANNAU – Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.</p>	
	<p>Yn Sesiwn Gaeëdig y cyfarfod trafododd y Bwrdd: Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol, penodi Ymddiriedolwyr ac aelodau o'r Uwch Dîm Gweithredol, Sganio'r Gorwel, a Benthyciadau Rhyngwladol.</p> <p>Ar y pwynt hwn agorwyd y cyfarfod i'r cyhoedd. Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.</p>	
1	<p>GAIR O GROESO AC YMDDIHEURIADAU Croesawodd Roger Lewis bawb i'r cyfarfod. Croesawyd Gareth Hills, Undeb yr FDA, Daniel Maney, Undeb Prospect a Sian Wiblin, Undeb y PCS i'r cyfarfod fel Arsylwyr. Cafwyd ymddiheuriadau gan Carol Bell (Is-lywydd) a Kay Andrews.</p>	
2	<p>COFNODION Penderfynwyd: Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi 2020.</p>	
3	<p>MATERION YN CODI Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion blaenorol.</p>	
4	<p>1. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYFFREDINOL 1.1. Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol 1.1.1. <u>Derbyniwyd:</u> Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol. 1.1.2. <u>Adroddwyd:</u> Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod Llysgennad Japan wedi ymweld â Sain Ffagan yn ddiweddar, yng nghwmni Prif Weinidog Cymru. Roedd yr Amgueddfa'n cydweithio'n agos â phartneriaid yn Japan ar y posibilrwydd o gynnal arddangosfa fawr yng Nghymru yn 2022/23. Diolchwyd i Bennaeth yr Amgueddfa a'r Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu, a phawb a weithiodd i baratoi ar gyfer y digwyddiad, am eu cefnogaeth. Nododd Dirprwy Gyfarwyddwr Diwylliant a Chwaraeon fod Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru wedi'i chyhoeddi. Er bod y cyfyngiadau teithio sydd mewn grym ar hyn o bryd oherwydd y pandemig yn golygu ei bod hi'n anodd teithio, roedd cyfleoedd i ymchwilio i gysylltiadau â phartneriaid eraill. Adroddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar ei gyfarfod llwyddiannus â</p>	

	<p>Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y diwrnod blaenorol. Roedd llawer o gyfleoedd i gydweithio a dylai cefnogi'r blaenoriaethau yn Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru fod yn un o'r rhain.</p> <p>1.1.3. Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod dau aelod o staff yn ymgeiswyr yn etholiadau Senedd 2021. Roedd Ysgrifennydd yr Amgueddfa wedi cylchredeg gwybodaeth i'r Ymddiriedolwyr yn eu hysbysu o'u rhwymedigaethau pe baent am sefyll ar gyfer yr etholiadau hefyd. Anogodd y Llywydd bawb i gymryd rhan mewn bywyd dinesig a chymdeithas.</p> <p>1.1.4. Adroddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol ymhellach ar y cais llwyddiannus i UKRI am £895,000 i gefnogi gwariant cyfalaf ar gyfarpar ymchwil i guradwyr a staff cadwraeth sy'n gweithio gyda chasgliadau daeareg, archaeoleg a chelf yr Amgueddfa. Roedd y buddsoddiad hwn yn rhan o gyfeiriad yr Amgueddfa yn y dyfodol – yn cefnogi gweithgarwch ymchwil â phwrpas cymdeithasol, a gaiff ei argymhell yn gryf gan UKRI.</p> <p>1.1.5. Diolchodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Llywydd i'r Undebau Llafur am eu cefnogaeth o ran sefyllfa ariannol yr Amgueddfa, wrth gyfathrebu â Llywodraeth Cymru.</p> <p>1.1.6. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y newyddion diweddaraf wedi'i nodi. Bod y Dirprwy Gyfarwyddwr Diwylliant a Chwaraeon yn trefnu cyfarfod rhwng yr Amgueddfa a phartneriaid eraill i ymchwilio i ffyrdd y gallai'r holl sefydliadau gydweithio i gyflawni'r blaenoriaethau yn Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru.</p> <p>1.2. Uwchgynllunio ar gyfer Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd</p> <p>1.2.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Profiad Ymwelwyr.</p> <p>1.2.2. <u>Adroddwyd</u>: Bod y Bwrdd wedi cael y newyddion diweddaraf ar y cynnydd yn y broses gaffael i benodi ymgynghorwyr i ymgymryd â'r gwaith uwchgynllunio. Byddai'r rhaglen yn cyd-fynd â strategaeth 'Amgueddfa Cymru 2030'. Byddai'r Bwrdd yn rhan bwysig o'r gwaith paratoi hanfodol hwn.</p> <p>1.2.3. Roedd yr Ymddiriedolwr Michael Prior a'r Trysorydd wedi arsylwi'r broses o ddyfarnu'r contract tendr. Nododd y ddau pa mor fodlon oedden nhw â'r broses a'r modd proffesiynol yr aethpwyd ati i reoli ac ymdrin â'r broses. Roedd yn brofiad addysgiadol a chadarnhaol. Diolchodd y Llywydd am yr adroddiad manwl a nododd fod yr uchelgais yn ddatganiad pwysig iawn i Gymru – gan nodi statws eiconig yr adeilad a phwysigrwydd y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yno i'r cyhoedd.</p> <p>1.2.4. <u>Adroddwyd</u>: Bod y newyddion diweddaraf wedi'i nodi a bod Llywodraeth Cymru'n parhau i gael ei hysbysu am ddatblygiadau o ran y gwaith uwchgynllunio yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.</p>	<p>SR</p> <p>JL</p>
5	<p>STRATEGAETH, POLISI A CHYNLLUNIO</p> <p>1. Strategaeth a Brand Amgueddfa Cymru 2030</p> <p>1.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus.</p> <p>1.2. <u>Adroddwyd</u>: Diolchodd y Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus i'r Ymddiriedolwyr am eu cyfraniad i'r gweithdy strategaeth a'u hadborth ar 25 Tachwedd 2020. Roedd yr adroddiad yn cofnodi sut yr oedd yr Amgueddfa wedi trafod y strategaeth â rhanddeiliaid, Ymddiriedolwyr a'r cyhoedd. Roedd yn ysbrydoliaeth gweld y cyhoedd yn rhannu'r un lefel o</p>	

	<p>frwdfrydedd ag Ymddiriedolwyr am ddyfodol yr Amgueddfa. Roedd gofyn i'r Bwrdd gytuno ar yr ystyr y tu cefn i bob Nod. Byddai geiriad pob Nod yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r gwaith Brand. Roedd chwe Nod erbyn hyn. Byddai'r amcanion galluogi yn cael eu datblygu ymhellach.</p> <p>1.3. Nododd y Llywydd fod angen i'r Amgueddfa ystyried beth oedd ei angen er mwyn goroesi, er mwyn bod yn gynaliadwy ac ar gyfer ei strategaeth. Byddai'r rhain yn dylanwadu ar siâp yr Amgueddfa yn y dyfodol. Diolchodd y Llywydd i'r Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus am ei harweinyddiaeth gadarn wrth lywio'r gwaith hwn at ei derfyn.</p> <p>1.4. Nododd y Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus mai'r cam nesaf fyddai edrych ar Fodel Tri Gorwel Cenedlaethau'r Dyfodol ochr yn ochr â'r Pum Ffordd o Weithio, i greu Cynllun Gweithredu ag Amcanion a Dangosyddion Perfformiad Allweddol priodol fyddai'n galluogi'r Amgueddfa i gyflawni'r Chwe Nod hyn.</p> <p>1.5. Nododd y Dirprwy Gyfarwyddwr Diwylliant a Chwaraeon ei fod wedi trafod y strategaeth â'r Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus.</p> <p>1.6. O ran y gwaith Brandio, rhoddodd y Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu y newyddion diweddaraf i'r Bwrdd o ran cynnydd. Byddai'r negeseuon a'r iaith yn allweddol i gyfathrebu'r gwaith hwn yn effeithiol yn ystod haf / hydref 2021. Byddai hyn yn golygu gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill ac atyniadau ymwelwyr i greu dull unedig o ran y modd y caiff Cymru ei chyflwyno i'r byd. Er y dylid cael cydbwysedd a chonsensws o ran un dull i Gymru gyfan, dylai ymdeimlad o unigoliaeth hefyd fod yn perthyn i hunaniaeth pob sefydliad.</p> <p>1.7. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y Chwe Nod ar gyfer strategaeth Amgueddfa Cymru 2030 wedi'u cymeradwyo.</p> <p>2. Cyfathrebu, Marchnata ac Eiriolaeth</p> <p>2.1. <u>Adroddwyd</u>: Bod y newyddion diweddaraf wedi'i nodi fel rhan o'r diweddariad ar y Strategaeth a Brand uchod.</p> <p>2.2. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y newyddion diweddaraf wedi'i nodi.</p> <p>3. Y Newyddion Diweddaraf am COVID-19</p> <p>3.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Profiad Ymwelwyr.</p> <p>3.2. <u>Adroddwyd</u>: Diolchwyd i'r Undebau Llafur unwaith eto am eu cefnogaeth i'r Amgueddfa wrth gyfathrebu â Llywodraeth Cymru. Nododd y Pennaeth Adnoddau Dynol fod mis Rhagfyr wedi'i glustnodi'n Fis Llesiant y staff, gydag ystod o ddigwyddiadau a gweithgareddau wrthi'n cael eu cynllunio ar gyfer y staff. Nododd yr Amgueddfa y nifer cynyddol o achosion o'r feirws yng Nghymru, ac y byddai'r Prif Weinidog yn gwneud datganiad cyhoeddus arall y diwrnod canlynol. Roedd yr Amgueddfa'n parhau i weithio'n unol â sefydliadau eraill, megis Cadw a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, i sicrhau bod y cyhoedd yn cael negeseuon clir a chyson o ran yr hyn a oedd ar agor / ar gau a phryd.</p> <p>3.3. Nododd yr Ymddiriedolwyr yr hyfforddiant diogelu ychwanegol a oedd yn cael ei ddarparu ar gyfer staff i'w galluogi i ymateb i achosion o gam-drin geiriol neu gam-drin arall gan y cyhoedd. Roedd yr Amgueddfa hefyd wedi bod yn casglu llawer o negeseuon o gefnogaeth yn diolch i staff am y ffordd y cawsant eu croesawu i fwynhau eu hymweliad yn ddiogel.</p> <p>3.4. <u>Penderfynwyd</u>: Bod y newyddion diweddaraf wedi'i nodi.</p>	
6	DADWLADYCHU'R CASGLIADAU	

	<ol style="list-style-type: none"> 1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil. 2. <u>Adroddwyd</u>: Bod y Bwrdd wedi cael cyflwyniad y diwrnod blaenorol, yn nodi'r cymhlethdodau, yr heriau a'r cyfleoedd o ran dadwladychu'r casgliadau. 3. Byddai sylwadau a wnaed gan y Bwrdd yn cael eu datblygu gan y tîm fel rhan o'i waith gyda'r cyhoedd. Roedd cyfle i wneud newid sylweddol o ran y ffordd mae'r Amgueddfa'n gweithio â'r cyhoedd, y casgliadau a'r arddangosfeydd. Nododd y Bwrdd y byddai'n cymryd blynyddoedd lawer i gyflawni'r gwaith hwn. 4. Nododd yr Ymddiriedolwyr sut y gallai diffiniadau o wladychiaeth fod yn berthnasol i'w hanesion eu hunain, er enghraifft hanes y Gwyddelod yng Nghymru. Roedd cyfle i ystyried y cyfleoedd cyllido sy'n gynhenid mewn ymchwil i gasgliadau gwyddonol ac astudiaethau natur yr Amgueddfa a sefydliadau eraill megis Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. 5. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y Bwrdd wedi nodi'r adroddiad. 	
7	<p>RHAGLENNI CYHOEDDUS</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus. 2. <u>Adroddwyd</u>: Nododd y Cyfarwyddwr fod yr adroddiad yn ystyried yr hyn a ddysgwyd dros y chwe mis diwethaf, a'r hyn yr oedd hynny'n ei olygu i ddyfodol rhaglenni cyhoeddus ar draws y sefydliad. Roedd yr Amgueddfa wedi gweithio'n greadigol i ymateb i anghenion pobl, gan ganolbwyntio ar iechyd a gofal am lesiant meddyliol pobl. Roedd y cynllun yn cwmpasu cyfnod o bum mlynedd a byddai'r gweithgarwch yn cyd-fynd â'r Strategaeth Ddeng Mlynedd. Ystyriwyd bod y ffordd y mae'r Amgueddfa'n gweithio bellach yn llawer mwy democrataidd o ran cyrhaeddiad ac effaith. 3. Nododd Cadeirydd y Cyfeillion faint o aelodau a chymunedau ledled Cymru sydd â mynediad at gyfrifiaduron a'r rhyngwyd i fanteisio ar y gweithgarwch a'r rhaglenni digidol. Nododd y Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus nad oedd gan 16% o gartrefi yng Nghymru unrhyw gysylltedd a bod yr Amgueddfa wedi gweithio gydag awdurdodau lleol i rannu pecynnau diwylliant i'w dosbarthu i gymunedau lleol. 4. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y papur wedi'i gymeradwyo. 	
8	<p>ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Prif Swyddog Gweithredol / Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol. 2. <u>Adroddwyd</u>: Bod y Prif Swyddog Gweithredol wedi nodi'r sefyllfa ariannol bresennol a bod yr Amgueddfa'n falch ei bod wedi cael £300,000 o gyllid Cymorth Grant - a oedd yn rhan o'r £440,000 a gwtogwyd o'r Cymorth Grant yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru yn gynharach yn y flwyddyn - ynghyd â chyllid cyfalaf ychwanegol. Nododd y Prif Swyddog Gweithredol fod y sefyllfa'n ansicr, a bod yr Amgueddfa'n ddibynnol ar gyllid cyfalaf a Chymorth Grant Llywodraeth Cymru i gefnogi'r rhan fwyaf o'i gwaith. Byddai rhagolwg ariannol diwygiedig yn cael ei baratoi yn dilyn y cyhoeddiad am y gyllideb ar 21 Rhagfyr 2020 a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau. Nododd y Prif Swyddog Gweithredol hefyd fod y diffyg strwythurol yn parhau, a rhagwelir y bydd cronfeydd wrth gefn yr Amgueddfa yn wedi'u defnyddio erbyn 2022. Roedd yr Amgueddfa'n darparu cymorth i staff gan gynnwys Mis Llesiant, ac roedd y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd yn ddiolchgar am y gefnogaeth a gafwyd gan yr Undebau Llafur wrth gyfathrebu â Llywodraeth Cymru. Tynnodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol sylw'r Bwrdd at bwysigrwydd y gweithgarwch digidol a grybwyllir yn yr adroddiad. 3. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod yr adroddiad wedi'i gymeradwyo. 	

NEWYDDION DIWEDDARAF LLYWODRAETH CYMRU

1. Adroddwyd: Bod y Dirprwy Gyfarwyddwr Diwylliant a Chwaraeon wedi rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Bwrdd ynglŷn â'r canlynol:

- 1.1. **Cyllideb Llywodraeth Cymru 2021/22** – Yn dilyn y cyhoeddiad am yr Adolygiad o Wariant ar 25 Tachwedd 2020 bydd cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yn cael ei chyhoeddi ar 21 Rhagfyr 2020. Roedd y Dirprwy Gyfarwyddwr wrthi'n gweithio â Gweinidogion Cyllid Llywodraeth Cymru a chydweithwyr eraill o ran dyrannu cyllid ymysg gwahanol adrannau'r llywodraeth. Roedd cyllid refeniw yn arbennig o heriol, er bod y sefyllfa'n fwy cadarnhaol mewn perthynas ag argaeledd cyllid cyfalaf. Nododd y Bwrdd yr argyfwng a oedd yn wynebu Cymru, ac mai'r Bwrdd oedd yn gyfrifol am fynd i'r afael â'r argyfwng sy'n wynebu'r Amgueddfa. Diolchodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol i'r Dirprwy Gyfarwyddwr Diwylliant a Chwaraeon am wrando ar anghenion yr Amgueddfa.
- 1.2. **Proses Siambr y Seren** – Roedd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymchwilio i ffyrdd y gallai gefnogi'r Amgueddfa gyda chyllid yn ystod y flwyddyn. Nododd y Dirprwy Gyfarwyddwr Diwylliant a Chwaraeon y dyfarniad diweddar gwerth £300,000, a bod hyn yn mynd gam o'r ffordd tuag at ad-dalu'r gostyngiad o 2% yn ystod y flwyddyn i gyllideb Cymorth Grant 2020/21. Byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i ymchwilio i gyfleoedd eraill i gefnogi'r Amgueddfa drwy weddill y flwyddyn ariannol. Nododd y Prif Swyddog Gweithredol yr anawsterau ariannol amlwg sy'n wynebu'r Amgueddfa a bod y rhain wedi'u cyfleu'n rheolaidd a thro ar ôl tro i Lywodraeth Cymru. Byddai'r Amgueddfa'n croesawu rhagor o gyllid i fynd i'r afael â'r diffyg strwythurol a oedd yn effeithio ar gynlluniau'r sefydliad ar gyfer y dyfodol. Nododd y Bwrdd y cyfuniad yng Nghymru o bandemig byd-eang, Brexit, cyllidebau blwyddyn a'r etholiad yn 2021. Adroddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar y ffordd y mae'r Amgueddfa wedi ymateb yn ystod y misoedd diwethaf i gefnogi cymunedau a phobl Cymru drwy broiectau ymarferol. Roedd yr Amgueddfa'n barod i chwarae'i rhan yn y dyfodol, yn cyflwyno atebion creadigol ar gyfer pobl Cymru. Nododd y Bwrdd bwysigrwydd y gwaith partneriaeth ar draws ystod o sefydliadau, a'r cysylltedd ag uchelgais yr Amgueddfa i godi arian a chynhyrchu incwm. Nododd Cadeirydd y Bwrdd Datblygu fod y rhan fwyaf o gwmnïau'n canolbwyntio ar sicrhau eu bod yn goroesi ac y byddai hyn yn llesteirio'u gallu i ystyried cefnogi'r Amgueddfa.
- 1.3. **Yr Oriol Celf Gyfoes Genedlaethol** – Byddai'r Dirprwy Weinidog yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig ynglŷn â'r Oriol a'r Amgueddfa Bêl-droed ar 11 Rhagfyr 2020. Roedd ymgynghorwyr wedi'u penodi ac wrthi'n gweithio gyda'r lleoliadau arfaethedig. Roedd adroddiad terfynol wedi'i drefnu ar gyfer mis Chwefror 2021. Nododd y Bwrdd y pedwar project a gynhaliwyd yn y cyfamser. Nododd y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil y gwaith a oedd yn cael ei wneud ar hyn o bryd i ddigideiddio'r casgliadau celf.
- 1.4. **Yr Amgueddfa Bêl-droed** – Roedd y project hefyd yn mynd o nerth i nerth a byddai manylion yn cael eu hamlinellu yn natganiad ysgrifenedig y Dirprwy Weinidog.
- 1.5. **Blaenoriaethau diwylliannol** – Roedd Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu cefnogi gweithwyr llawrydd unigol a sefydliadau drwy'r Gronfa Adferiad Diwylliannol. Roedd y gwaith ehangach ar flaenoriaethau

	<p>diwylliannol wedi cael ei ohirio a bellach bydd rhaid i'r llywodraeth newydd yn 2021 weithredu ar hyn. Nododd y Llywydd y byddai ffocws yr Amgueddfa ar oroesi a chynaliadwyedd a byddai ei strategaeth yn gweithio i gefnogi Llywodraeth Cymru i sicrhau adferiad Cymru. Diolchodd y Llywydd i'r Dirprwy Gyfarwyddwr Diwylliant a Chwaraeon am ei amser a'i gefnogaeth, a chadarnhaodd fod y Bwrdd yn croesawu ei bresenoldeb yng ngyfarfodydd y Bwrdd a chyfarfodydd eraill gyda'r Swyddogion a'r Tîm Gweithredol.</p> <p>2. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y Dirprwy Gyfarwyddwr Diwylliant a Chwaraeon yn trefnu cyfarfod â'r Llywydd, y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Prif Swyddog Gweithredol / Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol ar ôl y cyhoeddiad am y gyllideb ar 21 Rhagfyr 2020, os bydd angen. Bod y Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus a Phennaeth Marchnata a Chyfathrebu yn darparu ymateb i ddatganiad ysgrifenedig y Dirprwy Weinidog ar yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol a'r Amgueddfa Bêl-droed.</p>	SR HF /CT
10	<p>CAFFAEL PAENTIAD</p> <p>1. <u>Adroddwyd</u>: Nododd y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil fod y gwaith gan yr arlunydd Paula Rego bellach yn rhan o'r casgliadau a byddai'n cael ei arddangos cyn gynted â phosibl. Roedd gwaith cadwraeth yn cael ei wneud ar y gwaith gan Manet a gafodd ei gaffael yn ddiweddar a nododd y Bwrdd y cyfleoedd ffilm digidol a allai ddeillio o rannu'r gwaith cadwraeth. Roedd y pandemig yn effeithio ar lefel y cymorth y gallai Ymddiriedolaeth Derek Williams ei ddarparu i'r Amgueddfa.</p> <p>2. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a nodwyd y newyddion diweddaraf.</p>	
11	<p>RHEOLI CYNALIADWY</p> <p>1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan Bennaeth yr Amgueddfa, Amgueddfa Wlân Cymru/Cadeirydd Grŵp Cydymffurfiaeth a Fforwm Rheoli Cynaliadwy.</p> <p>2. <u>Adroddwyd</u>: Bod un cynllun gweithredu ar gyfer yr holl sefydliad yn dilyn datgan Argyfwng Ecolegol a Hinsawdd ym mis Medi 2019. Roedd y papur yn tynnu sylw at y ffocws presennol ar gymryd camau tuag at ddatgarboneiddio, paratoi a chyflwyno cwrs llythrennedd carbon i'w achredu, ac adolygu polisi a datganiad amgylcheddol yr Amgueddfa.</p> <p>3. Roedd y Bwrdd yn cefnogi'r tîm am y modd integredig y daethpwyd â'r papur ynghyd. Cadarnhawyd bod y set Gwres a Phŵer gyfun yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd wedi arwain at arbedion o £95,261 o ran trydan sydd wedi cael ei brynu. Cydnabuwyd nad oedd asiantaeth unigol bellach yn ddigon i fynd i'r afael â'r materion byd-eang hyn a bod gan yr Amgueddfa gyfle i fod yn eiriolwr dros newid, ac yn arweinydd newid. Roedd partneriaethau'r Amgueddfa yn adnodd pwysig o ran arddangos gwaith yr Amgueddfa.</p> <p>4. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a nodwyd yr adroddiad. Bod yr Amgueddfa'n ystyried sut i hyrwyddo'r sefydliad fel sefydliad cenedlaethol cyfrifol mewn perthynas â'i waith rheoli cynaliadwy.</p>	CT
12	<p>LLYWODRAETHU</p> <p>1. Nodyn atgoffa blynyddol ar y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol a Safonau</p> <p>1.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan Ysgrifennydd yr Amgueddfa.</p> <p>1.2. <u>Adroddwyd</u>: Bod yr adroddiad yn amlygu'r prif feysydd cydymffurfiaeth i'r Bwrdd eu nodi, yn y nodyn atgoffa blynyddol.</p> <p>1.3. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a nodwyd yr adroddiad.</p> <p>2. Safonau'r Gymraeg</p>	

	<p>2.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus.</p> <p>2.2. <u>Adroddwyd</u>: Ni chafwyd unrhyw gwynion yn ystod y chwarter olaf.</p> <p>2.3. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod yr adroddiad wedi'i nodi.</p> <p>3. Adroddiad Blynyddol Perchnogion Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru</p> <p>3.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan Bennaeth yr Amgueddfa.</p> <p>3.2. <u>Adroddwyd</u>: Bod y Prif Swyddog Gweithredol wedi atgoffa'r Bwrdd mai'r Amgueddfa yw perchennog y pwll glo ac felly o ran llywodraethu roedd gan y Bwrdd gyfrifoldebau a rhwymedigaethau fel perchnogion a gweithredwyr y pwll glo. Diolchwyd i Bennaeth yr Amgueddfa a Rheolwr y Pwll Glo am eu gwaith. Nododd y Bwrdd waith gwerthfawr y prentisiaethau wrth ddarparu dilyniant hirdymor ar y safle. Roedd y cymhwyster sydd gan Reolwr y Pwll Glo yn galluogi'r Amgueddfa i fod ar agor i'r cyhoedd.</p> <p>3.3. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod yr adroddiad wedi'i nodi.</p> <p>4. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol</p> <p>4.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus.</p> <p>4.2. <u>Adroddwyd</u>: Bod yr adroddiad yn rhoi'r newyddion diweddaraf ar ddatblygiadau diweddar o ran Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ar gyhoeddi <i>Maniffesto y Dyfodol</i> gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ac ar sylwadau'r Comisiynydd mewn perthynas â chynnydd yr Amgueddfa. Nododd y Cyfarwyddwr fod yr adroddiad yn gadarnhaol iawn a bod yr Amgueddfa yn nhyb y Comisiynydd yn rhan o grŵp y 'Credinwyr a Chyflawnwyr'. Roedd yr Amgueddfa bellach wrthi'n ail-lunio ei nodau Llesiant fel rhan o'r Strategaeth Ddeng Mlynedd newydd.</p> <p>4.3. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod yr adroddiad wedi'i nodi.</p>	
13	<p>Atodiad 1</p> <p>Nodwyd y camau gweithredu o gofnodion y gwahanol Bwyllgorau a Grwpiau.</p> <p>Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn</p> <p>Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd</p> <p>Y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau Nododd y Bwrdd y rôl bwysig yr oedd y Pwyllgor Sefydlog hwn yn ei chwarae wrth wneud penderfyniadau allweddol a ddirprwywyd gan y Bwrdd.</p> <p>Grŵp Cynghori ar Gelf</p> <p>CCB Caerllion</p> <p>Pwyllgor Cynghori ar Ymchwil Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil am ei chyfraniad ac ymrwymiad y staff. Roedd y Cadeirydd yn dymuno gweld strategaeth Cynghori ar Ymchwil newydd yn cael ei chynllunio, yn cynnwys rhestr o flaenoriaethau a phartneriaid. Byddai'r strategaeth hon yn cyd-fynd â strategaeth Ddeng Mlynedd yr Amgueddfa.</p> <p>Y Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau</p>	
14	<p>UFA</p> <p>Agendâu'r Bwrdd yn y Dyfodol Nododd y Llywydd fod angen ystyried yr eitemau a restrir ar ddiwedd yr agenda mewn perthynas ag agendâu'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau.</p> <p><u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod amserlen o bynciau i'w trafod yn cael ei phennu ym mis Ionawr 2021 ar gyfer agendâu gwahanol y Bwrdd a'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau ar gyfer 2021/2022. Bod yr Ymddiriedolwyr yn cyfrannu syniadau a sylwadau ar y rhestr o bynciau arfaethedig.</p>	EC Ymddiri edolwyr

	<p>Uwch Dîm Gweithredol Atgoffodd y Llywydd y Bwrdd na fyddai unrhyw gyfathrebu mewn perthynas â busnes cyffredinol gan yr Uwch Dîm Gweithredol rhwng 18 Rhagfyr 2020 a 04 Ionawr 2021.</p> <p>Diolchodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol i'r Ymddiriedolwyr am eu cefnogaeth. Nododd y gwaith ychwanegol a oedd wedi bod yn ofynnol i bawb ei gyflawni a'i fod yn ddiolchgar bod yr Ymddiriedolwyr wedi parhau i fod yn gefnogol â ffocws pendant. Er gwaethaf heriau'r misoedd diwethaf nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol ei fod yn optimistaidd ar gyfer 2021, yn seiliedig ar lwyddiannau 2020.</p>	
	<p>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf</p> <p><u>Penderfynwyd</u>: Bydd cyfarfod nesaf Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn dechrau am 9:00am ar 11 Mawrth 2021.</p>	